## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2024.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**10 Rhagfyr 2024**

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Gosodwyd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn y Senedd ar 22 Tachwedd 2024.

1.2. Mae'r Rheoliadau:

- yn diweddaru ac yn egluro telerau gwasanaeth contractwyr fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru.
- yn ehangu'r rheoliadau presennol ar gyfer gweinyddu, cyflenwi a darparu meddyginiaethau ac offer gan fferyllwyr cymunedol i gynnwys archebion wedi'u llofnodi a ddyroddir gan optometryddion sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru fel rhan o Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) a gyflwynwyd yn 2023.
- yn cyflwyno rheoliadau i ganiatáu i fferyllfeydd a meddygon fferyllol y GIG yng Nghymru weinyddu cyffuriau yn eu pecynnau gwreiddiol o 1 Ionawr 2025 ymlaen.

1.3. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2024 yn rhoi rheoliad 1(3) newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 i fynd i'r afael â gwall teipograffyddol yn rheoliad 1 fel bod y darpariaethau y mae angen iddynt ddod i rym ar 1 Ionawr 2025 yn gallu dod i rym.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad[1] ar SL(6)551 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 bwyntiau technegol o dan Reol Sefydlog 21.2.

2.2 Mae angen offeryn statudol diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt technegol a godwyd mewn perthynas â rheoliad 1 ynghylch y dyddiad dod i rym o 1 Ionawr 2025.

2.3 Bydd y pwyntiau technegol eraill a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor yn cael sylw ar wahân.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd

[1] SL(6)551 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 sy'n llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Ran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

3.2 Mae'r offeryn hwn yn rhoi rheoliad 1(3) newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 i fynd i'r afael â phwynt technegol fel bod y darpariaethau y mae angen iddynt ddod i rym ar 1 Ionawr 2025 yn gallu dod i rym.

3.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod y darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatáu i fferyllfeydd a meddygon fferyllol y GIG yng Nghymru weinyddu cyffuriau yn eu pecynnau gwreiddiol yn gallu dod i rym ar 1 Ionawr 2025 fel y cynlluniwyd.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

5.2 Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol yn unig nad ydynt yn newid trefniadau polisi presennol na'r ymgynghoriad blaenorol a gynhaliwyd ar y newidiadau polisi arfaethedig.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhyrchwyd unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hyn gan fod y diwygiadau yn dechnegol ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith fawr ar bolisi. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.